# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 9FED MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaO'Brien@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd: 2/6/15)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | E. Selwyn Griffiths |
| Sian Gwenllian | Annwen Hughes |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen |
| Sedd Wag | |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Thomas G. Ellis |
| Jean Forsyth | Anne Lloyd Jones |

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Jason Humphreys |
| Sedd Wag | |

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

## Aelodau Ex-officio

Y Cyng. Eric Merfyn Jones - Is-gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I gadarnhau penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2015 i ethol Y Cynghorydd Tom Ellis yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 1 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2015 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU 6 - 9

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 8. LWFANSAU A PHRESENOLDEB AELODAU 10 - 11

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 9. DATBLYGIADAU TECHNEGOL 12 - 13

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 10. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL 14 - 18

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. RHAGLEN WAITH AM Y FLWYDDYN 19 - 21

I ystyried adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar raglen waith debygol y Pwyllgor am y flwyddyn.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 10/3/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Thomas G. Ellis (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Anwen Davies, Jean Forsyth, E. Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Jason Humphreys, Anne Lloyd Jones, Sion Wyn Jones a Michael Sol Owen.

**Swyddogion:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaethau Democrataidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid – ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Dilwyn Morgan.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2014, fel rhai cywir.

**3. GWE-DDARLLEDU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau gwe-ddarlledu. Adroddwyd bod y cyfarfodydd isod wedi eu gwe-ddarlledu hyd yn hyn a rhoddwyd diweddariad ar y ffigyrau gwylio:

| Pwyllgor | Dyddiad | Byw | Archif | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | 12/1/15 | 82 | 186 | 254 |
| Cabinet | 13/1/15 | 23 | 89 | 106 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 12/2/15 | 7 | 55 | 60 |
| Cabinet | 19/2/15 | 23 | 53 | 73 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 24/2/15 | 4 | 74 | 76 |
| Cyngor Llawn | 5/3/15 | 35 | 71 | 98 |

Tynnwyd sylw bod rhelyw o’r gwylio yn digwydd trwy’r safle archif a bod y ffigyrau archif yn debygol o gynyddu.

Yn ystod y drafodaeth nodwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Mai un ‘hit’ a gofrestrir fel gwyliwr o bob cyfeiriad penodol;
- Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed gwe-ddarlledu holl gyfarfodydd y Cabinet, nodwyd y byddai penderfyniad i we-ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet yn ddibynnol ar lefel diddordeb tebygol oherwydd cyfyngiad amser darlledu;
- Y byddai’n fuddiol derbyn gwybodaeth o ran pa ddyfais a ddefnyddir i wylio gwe-ddarllediadau;

- Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed hysbysu'r cyhoedd o'r cyfarfodydd a we-ddarlledir, nodwyd y cynhelir cyfarfod efo'r Uned Gyfathrebu i adnabod cyfleoedd hysbysebu;
- Bod pobl yn gwerthfawrogi gweld trafodaethau megis gosod y dreth gyngor ac yn canmol y Cyngor am we-ddarlledu;
- Y lluniwyd, ar gais aelodau, canllawiau gwe-ddarlledu i fod o gymorth iddynt ac nid i'w llesteirio.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) y dylid gwneud ymholiadau gyda'r cwmni sydd yn gyfrifol am y wefan gwe-ddarlledu o ran argaeledd gwybodaeth yng nghyswllt pa ddyfais a ddefnyddir i wylio gwe-ddarllediadau.**

## 4. ANGHENION TECHNOLEG GWYBODAETH GAN AELODAU

Adroddwyd yn dilyn derbyn cryn nifer o sylwadau gan aelodau etholedig am yr angen am hyfforddiant pellach ar ddefnydd yr i-pads y trefnwyd sesiwn gyda Phrifathro Ysgol Gynradd Llanrug i oddeutu 10 aelod.

Nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2014, y dylai grŵp o aelodau dreialu prosesydd geiriau ar yr i-pads, ei fod wedi anfon e-bost at y Cadeirydd yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i lawrthlwytho app 'Pages'. Ychwanegodd y byddai'r app yn cael ei raeadru i'r aelodau eraill a fyddai'n rhan o'r peilot.

Nododd aelod bod yr i-pad yn gweithio'n dda fel darllenydd ond nad oedd yn ddelfrydol i greu dogfennau. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid y treialir 'Pages' er mwyn gweld a fyddai'n diwallu anghenion aelodau.

Gofynnwyd am farn yr aelodau ynglŷn â cheisiadau a dderbyniwyd gan aelodau i gael mynediad i wybodaeth drwy wahanol gyfarpar technegol yn ychwanegol i'r i-pads a ddarparwyd gan y Cyngor. Tynnwyd sylw yn dilyn newidiadau i system technoleg gwybodaeth y Cyngor, i ymateb i ofynion diogelwch ychwanegol, y byddai gosod mynediad ychwanegol i aelodau gyda chost sefydlu o oddeutu £30 a chost flynyddol o oddeutu £30 y ddyfais.

Nododd aelodau bod trafferthion yng nghyswllt darllen e-byst hŷn ar yr i-pad ac nad oedd yn bosib argraffu oddi ar yr i-pad. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn i-pads i aelodau etholedig er mwyn hwyluso eu gwaith a cheisir darganfod datrysiad posib ar gyfer y problemau a amlygwyd gan aelodau.

Nododd aelod efallai y gellir cynnig opsiwn i'r aelodau dalu'r costau ynghlwm a mynediad i wybodaeth ar ddyfeisiadau eraill eu hunain.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) y dylid gwrthod ceisiadau gan aelodau am fynediad ychwanegol i'r hyn a ddarperir trwy i-pads y Cyngor ar hyn o bryd;**
**(ii) ail-asesu'r gofynion yn dilyn y sesiynau hyfforddiant i-pads pellach.**

## 5. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi diweddariad ar yr hyfforddiant a ddarperir yn gyfredol ynghyd â hyfforddiant a drefnir ar hyn o bryd er mwyn ymateb i'r gofynion a amlygwyd wrth gynnal y cyfweliadau datblygu personol.

Nodwyd y gofynnwyd i'r 20 aelod a fu'n rhan o'r drefn am eu sylwadau ar y broses a chafwyd ymateb eithaf cadarnhaol. Ychwanegwyd y cynhelir adolygiad o'r drefn yn y dyfodol o ran budd y broses i'r aelodau ac adroddir y canfyddiadau i'r Pwyllgor maes o law.

Nododd aelod y byddai hyfforddiant ymarferol ar ddefnydd cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na'r protocol o fudd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. YMGYSYLLTU GYDAG AELODAU

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yn unol â dymuniad y Pwyllgor cynhaliwyd ymgynghoriad gydag aelodau ynglŷn â threfniadau ymgysylltu'r Cyngor yn gyffredinol yn ogystal â'r cyswllt efo cynghorwyr. Adroddwyd y sefydlwyd grŵp tasg a oedd yn cynnwys swyddogion ac aelodau etholedig a ddaethpwyd i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar ddau brif fater sef:

- Newidiadau Mawr / Her Gwynedd
- Trefniadau Cyswllt Gweithredol.

Ymhelaethwyd ar y camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau, nodwyd:

- O ran gweithio gyda'r nos, er nad oedd Galw Gwynedd ar agor tu allan i oriau gwaith ei fod dal yn bosib anfon e-bost at y ganolfan alw drwy **Ymholiadau@gwynedd.gov.uk**;
- Y gellir gosod cyfeiriadau e-bost yn ogystal â rhifau ffôn ar y rhestr o bwyntiau cyswllt allweddol ar Rhaeadr;
- Bod angen cynyddu'r defnydd o graffu ymlaen llaw gan sicrhau bod y gwaith craffu yn amserol;
- Y gellir annog aelodau i gysylltu trwy e-bost yn y lle cyntaf ond byddai'r opsiwn gan aelodau i gysylltu dros y ffôn;
- Bod aelodau yn gweld budd o dderbyn rhif tracio gan Galw Gwynedd ar gyfer ymholiadau er sicrhau bod llwybr darganfod;
- Yng nghyswllt parchu ymddiriedaeth a chyfrinachedd ac ymgynghori ac aelodau lleol ymlaen llaw, o ran penderfyniadau Aelodau Cabinet unigol y gofynnir am sylwadau'r aelod lleol ar faterion lleol cyn cyhoeddi penderfyniad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r camau gweithredu yn ddarostyngedig i annog aelodau i gysylltu trwy e-bost yn y lle cyntaf os yn ymarferol iddynt.**

## 7. DOGFEN YMGYNGHOROL AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

Adroddwyd bod Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar Ddiwygio Llywodraeth Leol a gwahoddir sylwadau ar y ddogfen erbyn 28 Ebrill 2015.

Nodwyd y codwyd ymwybyddiaeth yr holl aelodau i'r ymgynghoriad trwy Rhaeadr. Rhoddir cyfle yn y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 26 Mawrth i aelodau roi sylwadau cyn i'r Cabinet ar 14 Ebrill gymeradwyo sylwadau'n ffurfiol ar ran y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y gall aelodau unigol a grwpiau gwleidyddol ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad.

Cafwyd trafodaeth ar y paragraffau a restrwyd yn yr adroddiad.

Gwnaed sylw penodol bod angen anfon neges at y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus bod y Pwyllgor yn ddiolchgar am y cyfle i roi sylwadau ar y ddogfen yma ond yn gofyn pryd gellir gweld ffrwyth gwaith y trafodaethau eraill ar ad-drefnu llywodraeth leol.

**PENDERFYNWYD mai barn y Pwyllgor yng nghyswllt y paragraffau penodol a restrir oedd:**

- **Paragraff 3.1 - Y dylid aros efo'r drefn o gynnal etholiadau bob pedair neu bum mlynedd;**
- **Paragraff 3.2 – O blaid cael aelodau o gefndiroedd gwahanol ar y Cabinet ond o'r farn ei bod yn gamgymeriad gosod dyletswydd oherwydd y risgiau ynghlwm. Y dylid gwneud gwaith penodol i wella'r cydbwysedd o ran dynion a merched ar Gabinet tra'n cydnabod hawl yr Arweinydd i benodi;**
- **Paragraff 3.4 – Yn gefnogol i osod dyletswydd ar Gynghorwyr i gyhoeddi adroddiad blynyddol;**
- **Paragraff 3.5 – Y dylid cymryd camau i hybu/annog amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr ond yn anghyfforddus o gael gweithdrefnau yn eu lle i orfodi oherwydd cymhlethdod achosion. Bod angen gwneud gwaith penodol ar gydraddoldeb o ran dynion a merched mewn Llywodraeth Leol;**
- **Paragraff 3.6 – Yn gefnogol i adolygiad o'r ffordd orau i dalu Cynghorwyr;**
- **Paragraff 3.7 – Wrth benderfynu ar y nifer o gynghorwyr dylid edrych ar y nifer o etholwyr yn ogystal â natur yr ardal gan gynnwys poblogaeth sydd yn mynd a dod, natur wledig a'r angen i fod yn gynrychiolydd lleol yn hytrach na nifer yr etholwyr yn unig;**
- **Paragraff 3.8 – Na ddylid gosod cyfyngiad ar nifer y tymhorau y caiff Cynghorwyr wasanaethu;**
- **Paragraff 3.9 - Yn gefnogol i gyflwyno trefn o adalw Cynghorwyr o fewn amodau penodol;**
- **Paragraff 3.10 – Ni ddylid llacio rheolau i ganiatáu swyddogion llywodraeth leol i sefyll etholiad i fod yn gynghorydd. Ni ddylid atal Cynghorwyr mewn Llywodraeth Leol rhag gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned;**
- **Paragraff 4.2 – Gwelir yr angen i edrych ar Lywodraethu Cymunedol a arweinir gan aelodau ond yn pryderu o ran trefn orfodol;**
- **Paragraff 4.6 - Y dylid parhau efo'r drefn lle gall unigolyn weithredu ar Brif Gyngor a Chyngor Cymuned. Yn gefnogol i atal Cynghorydd Sir rhag bod yn aelod ar fwy nag un Cyngor Cymuned.**

**8. GRANT GWELLA – LLYWODRAETH CYMRU**

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau bod Sarah Titcombe, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi bod mewn damwain car ac awgrymodd y dylid anfon cerdyn ati i ddymuno gwellhad buan.

Adroddwyd yn dilyn penderfyniad y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus bod Grant Gwella Llywodraeth Cymru yn dod i ben diwedd Mawrth 2015, golygir bod hyn yn arwain at ddiddymu'r Timau Cydraddoldeb a Gwella CLlLC a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol.

Nodwyd y rhannwyd gyda'r holl aelodau wybodaeth am ymgynghoriad gan CLlLC ar Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer aelodau trwy Rhaeadr. Adroddwyd y byddai'r fframwaith yn cael ei dderbyn yn ffurfiol yng nghyfarfod rhwydwaith swyddogion gwasanaethau aelodau ddiwedd y mis.

Nododd aelod bod y fframwaith yn gosod uchelgais i aelodau ond rhaid cydnabod y byddai'n heriol i'r aelodau ddod i fyny â'r gofynion.

Cyfeiriwyd at Freinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru CLlLC, a oedd yn wybyddus fel 'Siarter Aelodau', a nodwyd o ganlyniad i ddiddymu'r timau ei fod yn anhebygol y fyddai'n bosib ennill cymhwyster. Nodwyd yr ystyrir fod elfennau a gynhwyswyd o fewn y Siarter yn bwysig iawn ac y dylid parhau i adnabod a gweithio tuag at yr elfennau pwysig o'r Siarter er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth briodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) anfon cerdyn at Sarah Titcombe i ddymuno gwellhad buan;**
**(ii) cefnogi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i barhau i adnabod yr elfennau pwysig o gynnwys y siarter i sicrhau fod y gefnogaeth briodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd gyda golwg o gael yr holl elfennau pwysig mewn lle erbyn etholiadau Llywodraeth Lleol nesaf.**

**9. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Adroddwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16. Nodwyd bod y Panel wedi penderfynu na fyddai cynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol y derbynnir gan aelodau etholedig cynghorau lleol o ystyried y cyfyngiad parhaus ar wariant llywodraeth leol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Adroddodd y Prif Weithredwr y penodwyd Pennaeth Adran Strategol a Gwella yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn Mai 2012 yn unol â'r gofynion o dan Adran 8, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Nodwyd o ganlyniad i uno'r Adran Strategol a Gwella a'r Adran Adnoddau Dynol bod angen penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd newydd.

Nodwyd bod y trefniant a oedd yn bodoli ers 2012 wedi gweithio'n dda ac mai'r peth synhwyrol fyddai i'r cyfrifoldeb ddisgyn ar Bennaeth yr Adran newydd, sef yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Datblygu'r Sefydliad o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

**PENDERFYNWYD dynodi'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Datblygu'r Sefydliad yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor o 1 Ebrill 2015 ymlaen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.30pm

| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
|---|---|
| DYDDIAD | 9 Mehefin, 2015 |
| PWNC | Adroddiadau gan Aelodau |
| PWRPAS | Adrodd ar y bwriadau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau blynyddol Aelodau 2014/15 |
| AWDUR | Arwel Ellis Jones<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol<br>Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r rheidrwydd sydd ar y Cyngor i wneud trefniadau i aelodau fedru cynhyrchu adroddiad blynyddol os ydynt yn dymuno. Pwrpas yr adroddiadau yw cefnogi cyfathrebu rhwng aelodau etholedig a'r cyhoedd, a hynny trwy gyflwyno gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau. Hon yw'r drydedd flwyddyn lle gall aelodau gyflwyno adroddiadau.

2. Cynhaliwyd peilot o'r drefn yn y flwyddyn gyntaf (12/13), ac arweiniodd hyn at gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol gan 8 o aelodau, gan gofio mai un dull yn unig yw'r adroddiadau blynyddol o fod yn cyfathrebu gyda'r etholwyr. Annogwyd pawb i gynhyrchu adroddiad y llynedd (13/14) a gwelwyd cynnydd yn y niferoedd a gynhyrchwyd a chyhoeddwyd, sef 26 mewn cyfanswm. Noder fod amryw o gynghorau yn cymeryd lein gadarnach ar y mater gyda disgwyliad clir ar aelodau i gynhyrchu adroddiad o'r fath. Yn ogystal, mae'n rhaid cydnabod mai ychydig o wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu i drigolion am waith cynghorwyr.

3. Un ffactor pwysig yma yw'r cyswllt rhwng yr adroddiadau blynyddol a'r papur gwyn a drafodwyd yn ddiweddar. Roedd y papur gwyn yn ymgynghori ar newid statws adroddiadau blynyddol i fod yn statudol. Ymhellach, roedd hefyd yn awgrymu y dylid cynnwys ystadegau am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd/hyfforddiant fel gwybodaeth gyhoeddus yn hytrach nag yn rhan o'r adroddiadau yn unig. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddo gytuno y dylai cyhoeddi adroddiadau o'r fath fod yn fandadol ar bob aelod; cytunodd y Cabinet â'r farn honno a dyna bellach farn gyhoeddus y Cyngor ar y mater, barn sydd wedi ei gyfleu i Lywodraeth Cymru.

4. Mewn adroddiad arall sydd gerbron y pwyllgor hwn, rwy'n esbonio'r bwriad i ddwyn sylw penodol at waith aelodau mewn rhifyn o Newyddion Gwynedd, y rhifyn lle y cyhoeddir cyflogau aelodau. Yn amodol ar farn y pwyllgor, y bwriad yw y byddwn yn dweud yn benodol a yw aelod wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol neu beidio yn y rhifyn hwnnw. Yn ogystal, gwahoddir barn y Pwyllgor ar a ddylid cyhoeddi gwybodaeth am bresenoldeb neu beidio yn y rhifyn hwnnw hefyd.

5. Fel yr ydych yn ymwybodol, mae templed wedi ei greu, gyda pheth o'r wybodaeth wedi ei baratoi ymlaen llaw, er mwyn galluogi aelodau i gwblhau'r adroddiadau'n haws. Mae templed wedi ei yrru at yr holl Aelodau, gyda chais iddynt gyflwyno eu

hadroddiadau (mewn un iaith) **erbyn diwedd Mehefin** ar yr hwyraf.  Mae copi o'r templed ar gyfer Adroddiadau Blynyddol 2014/15 ynghlwm fel Atodiad 1.

6. Ceisir barn y pwyllgor ar y cynigion.

ATODIAD 1

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**
**2014/15**

**Cynghorydd:** XXXXX  **Grŵp:** XXXX

**Ward:** xxxxx

**Rol a chyfrifoldebau:**
*e.e. Cadeirydd XXXXXXX, ac aelod o'r Cyngor, Pwyllgor Craffu XXXXX, ac unrhyw bwyllgor arall*

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:** *e.e.*

| PWYLLGOR | PRESENNOL | ABSENNOL | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|---|---|
| *Y Cyngor* | *4* | *0* | *0* |
| *Pwyllgor xxxxxx* | *4* | *0* | *1* |
| *Pwyllgor xxxxxx* | *4* | *0* | *0* |
| *Unrhyw bwyllgor arall* | *1* | *0* | *0* |

Canran Presenoldeb: *93%*

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
*e.e. Fforwm Craffu*
*Ymchwiliad Craffu*
*Gweithdy Cynllun Strategol*
*Gweithdy Arbedion*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
*e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru*
*Ysgol Hirael (Llywodraethwyr Ysgol)*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**
*e.e. Cyd-Gyfarfod Swyddogion Cefnogi Aelodau / Arweinyddion Cefnogi Aelodau*
*Ymddiriedolaeth Prawf Gogledd Cymru*

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:** *e.e.*

| **Corfforaethol** | |
|---|---|
| *Data Perfformiad Awdurdod ac Ysgolion* | *dyddiad* |
| *Llywodraethu Ysgol a Diogelu Plant* | *dyddiad* |
| *Polisi Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol* | *dyddiad* |
| *Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio* | *dyddiad* |
| *Panel Rhiantu Corfforaethol* | *dyddiad* |

| **Ychwanegol** | |
|---|---|
| *I-pad* | *dyddiad* |
| *Sgiliau Cadeirio Effeithiol* | *dyddiad* |
| *Delio gyda'r Wasg* | *dyddiad* |

Cyfanswm nifer o oriau: 24

**Cynhaliwyd y gweithgareddau etholaethol canlynol:**

| |
|---|
| |
| **Cynhaliwyd y mentrau a'r gweithgareddau arbennig canlynol:** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin, 2015** |
| **PWNC** | **Lwfansau a Phresenoldeb Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru Aelodau ar y gofynion cyhoeddi ac adrodd ar fwriadau'r Cyngor o ran cwrdd â'r gofynion hynny** |
| **AWDUR** | **Arwel Ellis Jones**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol**<br>**Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

**GOFYNION CYHOEDDI**

1. Mae cyflogau aelodau etholedig yn fater o ddiddordeb cyhoeddus amlwg. Wrth gwrs, pennir y cyflogau hynny gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ffaith sydd yn pellhau'r penderfyniad ar yr union gyflogau oddi wrth y cynghorwyr eu hunain, mater y bu'r Cyngor hwn ac eraill yn pwyso amdano ers blynyddoedd.

2. Wrth gyhoeddi'r cyflogau hynny, mae'r Panel Annibynnol yn gosod rhai cyfrifoldebau ar y Cyngor o ran cyhoeddi'r cyflogau a delir. Mae dwy elfen i hyn:-

| GOFYN | AMSERLEN |
|---|---|
| Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau aelodau y bwriedir eu talu yn 2015/16 | Erbyn 31 Gorffennaf |
| Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau a'r treuliau a dalwyd i aelodau yn ystod 2014/15 | Erbyn 30 Medi |

**Y BWRIADAU CYHOEDDI**

3. Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai 2015, bydd yr holl benodiadau i swyddi sydd yn cario cyflog ychwanegol wedi eu gwneud yn fuan wedi i gadeiryddion y flwyddyn gan eu cadarnhau. Byddwn felly yn cyhoeddi bwriadau'r Cyngor yn fuan, gan wneud hynny ar wefan y Cyngor a hysbysu'r Panel yn uniongyrchol.

4. O ran gwybodaeth am daliadau 2014/15 y bwriad eleni eto fydd eu cyhoeddi mewn rhifyn o Newyddion Gwynedd, os yw'r amserlen yn caniatáu. Fodd bynnag, mae'n deg nodi y mynegwyd peth pryderon yn y gorffennol bod y wybodaeth wedi ei gyhoeddi allan o'i gyd-destun.

5. Y bwriad eleni, fel llynedd, yw gwneud rhywbeth tebyg eto gyda Newyddion Gwynedd yn cynnwys adran ar waith aelodau, yn esbonio eu gwaith a'u cyfrifoldebau gwahanol ymysg pethau eraill gyda'r wybodaeth am y cyflogau ac os yw aelod wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol neu beidio. Mewn adroddiad arall i'r Pwyllgor, rwy'n ymgynghori a

ddylid hefyd cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd/hyfforddiant yn yr un rhifyn.

6. Yn y cyd-destun hwn, mae pryderon wedi eu codi dros y misoedd diwethaf am lefel presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor. Mae hyn wedi ei drafod yn helaeth mewn cyfarfod gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol a tynnwyd eu sylw at achosion o bryder am bresenoldeb aelodau er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

**SYLWADAU**

7. Gwahoddir barn y pwyllgor ar y bwriadau hyn

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin, 2015** |
| **PWNC** | **Datblygiadau Technolegol** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru Aelodau ar faterion Technoleg Gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Arwel Ellis Jones**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol**<br>**Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

**Darpariaeth Llechen**

1. Mae cryn drafodaethau wedi bod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch darpariaeth llechen (i-pads). Yn y cyfarfod diwethaf, penderfynwyd y byddai'r uned hyfforddiant yn trefnu hyfforddiant pellach ar gyfer yr i-pads gydag arbenigwr allanol.

2. Rydym wedi cael rhywfaint o drafferth yn adnabod dyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant ac wedi gorfod gohirio y dyddiad am amrywiol resymau. Bellach, fodd bynnag, gallaf adrodd fod y sesiwn gyntaf i'w gynnal ar dydd Gwener, 26 Mehefin, 2015. Yn unol â'r hyn gafodd ei gyd-weld, bydd y sesiwn gyntaf yn sesiwn peilot, ac wedi ei gyfyngu ar gyfer tua 8 aelod etholedig. Yn ddibynnol ar yr adborth o'r sesiwn hwnnw, byddwn yn bwrw ymlaen wedyn ac yn trefnu sesiynau pellach o'r hyfforddiant. Mae'n debygol y bydd yn parhau i fod mewn grwpiau bychain, ond byddwn yn ystyried gofynion hyfforddiant, gofynion iaith a lleoliadau wrth wneud trefniadau.

3. Noder, os oes unrhyw aelod angen cymorth technegol, gellir cysylltu gyda desg gymorth TG ar 01286 679114. Os oes aelod yn dymuno arweiniad ar sut i ddefnyddio'r i-pad yn well, gellir cysylltu gyda Cara yn yr uned hyfforddiant i drefnu sesiwn 1 – 1.

**Modern Gov**

4. System gweinyddu pwyllgorau yn electronaidd yw Modern Gov. Penderfynwyd prynu y system newydd er mwyn gwella nifer o elfennau:

- Llif gwaith papurau pwyllgor a gwasanaethau Aelodau
- Y dull o gyhoeddi deunydd ar bwyllgorau ac ati ar wefan newydd y Cyngor a oedd yn cynnig gwell budd na cheisio defnyddio meddalwedd y wefan newydd i gyflawni'r un gwaith.

5. Mae system am ein galluogi i weinyddu pwyllgorau yn fwy effeithiol, ac mae'r manteision hefyd yn cynnwys gallu asio gyda'r system gwe-ddarlledu sydd gan y Cyngor. Buddion eraill clir yw:

- Y System wedi ei brofi yn y farchnad yn helaeth gan gynghorau eraill gyda'r mwyafrif llethol o gynghorau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio
- Cynghorau cyfagos eisoes yn defnyddio'r system yn golygu hwyluso cydweithioi ar draw cynghorau a hefyd, pe byddai uno cynghorau yn digwydd, y byddai modd dod i ben â'r elfen hon yn ddi-drafferth
- Cydymffurfiaeth llwyr a gofynion Polisi Iaith y Cyngor
- Y gallu i blethu gyda Chyfundrefn Gwe-ddarlledu'r Cyngor
- Tim Datblygiad y Wefan yn croesawu hwn fel cyfrwng gwell i gyfarch anghenion yr elfennau democrataidd o Wefan y Cyngor

6. Mae'r costau ynghlwm â phrynu'r system eisoes wedi eu cwrdd o adnoddau wedi ei glustoni yng nghronfeydd y Cynllun Strategol.

7. Mae'r gwaith cefndirol a pharatoadol yn cychwyn yn fuan iawn. Bwriedir cynnal sesiynau Hyfforddiant penodol i holl Aelodau etholedig ym mis Tachwedd ar y system a'i defnydd.

**<u>Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned</u>**

8. Adroddiad ar lafar i'w dderbyn gan yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth.

**SYLWADAU**

- Gwahoddir barn y pwyllgor ar y bwriadau hyn

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin, 2015** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Arwel Ellis Jones**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol**<br>**Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.** |

1. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol bod yn rhaid i'r Cyngor gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Noder, nid trefn asesu perfformiad aelod yw'r drefn ar gyfer aelod sydd y tu allan i'r Cabinet ond y cyfle am drafodaeth gwbl gyfrinachol ar anghenion datblygu. Mae'r sefyllfa gyda'r Cabinet yn wahanol gan y bydd trefniant ar wahân ar gyfer aelodau Cabinet ac mae hyn yn debygol o gynnwys asesiad o'u perfformiad.

3. Mae'r pwyllgor wedi trafod hyn o'r blaen ac fe gofiwch fod adroddiad wedi ei gyflwyno yn y pwyllgor diwethaf yn nodi

- y themâu a gododd o'r cyfweliadau, sydd nawr yn llywio rhaglen hyfforddiant eleni
- barn gan aelodau a fu'n rhan o'r broses am y cyfweliadau/sgwrs anffurfiol.

4. Rydym hefyd wedi ceisio barn ar sut y mae'r aelodau fu'n rhan o'r drefn wedi elwa o fod yn rhan o'r broses. Nifer fechan a ymatebodd i'r holiadur, ac mae dod i gasgliad yn anodd gan fod nifer wedi nodi sylwadau eraill ychwanegol nad oedd yn ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau. Mae'r sylwadau yn amrywiol, o'r positif, megis:

"*o lawer o gymorth ac yn helpu fy hyder, a'r ffaith eu bod yn gyfrinachol o fudd mawr i mi*"
*"Dwi yn gweld y cyfweliadau fel rhywbeth positif"*

i sylwadau mwy negyddol, megis:
"*Rwy'n parhau braidd yn ansicr o beth oedd pwynt yr ymarferiad."*
*"Nid wyf angen hyfforddiant, rwy'n derbyn yr hyfforddiant rwyf ei angen wrth weithio gyda'r cyhoedd."*

5. Er mwyn i aelodau gael y cyfle i drafod eu datblygiad personol, mae trefniadau yn bodoli er mwyn cynnal cyfweliadau ar gyfer unrhyw aelod sydd yn dymuno.

Y camau nesaf fydd:-

- Anfon llythyr at bob aelod yn eu hatgoffa o’r cynnig i gynnal cyfweliad blynyddol, gan gynnwys templed y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cyfweliadau (mae copi o’r templed ynghlwm yn Atodiad 1)
- gofyn i’r aelodau gadarnhau trwy e-bost neu alwad ffon os ydynt am gael cyfweliad o’r fath
- Ar gyfer yr aelodau sydd yn ateb yn gadarnhaol, dosbarthu llythyr yn cadarnhau lleoliad cyfweliad, ac yn amgáu y swydd-ddisgrifiadau aelod sydd yn berthnasol iddynt
- Aelodau yn cael y cyfle i lenwi’r templed os ydynt yn dymuno neu ei ddefnyddio fel nodyn briffio.
- Cyfweliad yn digwydd (cyfnod Hydref i Rhagfyr) a chytundeb ar feysydd datblygu a dysgu
- Cyfarfod â’r anghenion hynny o fewn y canllawiau sydd eisoes wedi ei gytuno

6. Gwahoddir sylwadau’r pwyllgor ar y trefniadau arfaethedig hyn.

**<u>Paratoi ar gyfer cyfweliad adolygu datblygiad personol</u>**

**Mae’r ffurflen hon yn cynnig strwythur posib ar gyfer y cyfweliad. Medrwch ei ddefnyddio fel fframwaith i chi feddwl ymlaen llaw neu, os ydych yn dymuno, medrwch ei lenwi a dod ag e i'r cyfarfod.**

**Mae'r ffurflen yn gyfrinachol i chi a'r sawl fydd yn eich cyfweld ar wahân i'r dudalen olaf sydd i'w defnyddio gan swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i baratoi'ch cynllun datblygu personol a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer rhaglen hyfforddi'r awdurdod.**

1. **Beth yw fy rolau a'm cyfrifoldebau ar hyn o bryd?** (Er enghraifft, cabinet y cyngor, aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu, cadeirydd, aelod o bwyllgor statudol megis cynllunio neu drwyddedu, cynrychioli'ch ward, arwain y gymuned.)

**2. Pa orchwylion mae rhaid imi eu cyflawni eleni? Beth rwy'n bwriadu ei wneud? Erbyn pryd?**

**3. Beth mae angen imi ei wybod a gallu ei wneud i gyflawni fy rôl a gwireddu fy uchelgeisiau?** (Gall y disgrifiad o'ch rôl, manylion eich rôl a fframwaith datblygu'r cynghorwyr fod o gymorth yma.)

**4. Ym mha agweddau ar fy rôl rwy'n hyderus?**

**5. Ble rwy'n llai hyderus?**

**6. Beth allai fy rhwystro i rhag cyflawni fy rôl?** (Ystyriwch unrhyw faterion personol, cyfundrefnol neu wleidyddol allai fod yn feini tramgwydd.)

**7. Pa ddysgu a datblygu rwyf i wedi'u gwneud eleni?**

**8. Beth rwyf i wedi'i ddysgu a'i gyflawni o ganlyniad i hynny?**

**9. Pa ddysgu a datblygu ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?** (Yn ôl y tabl isod.)

| **Dyma'r meysydd yr hoffwn i eu datblygu:** | **Y datblygu sydd orau gyda fi** (e.e. ymweld ag awdurdodau eraill, cwrdd â chymheiriaid, gweithdai, e-ddysgu). |
|---|---|
| Medrau (e.e. rheoli cyfarfodydd, dulliau holi, trin a thrafod y cyfryngau). | |
| Gwybodaeth (e.e. côd ymddwyn, proses y cynllunio, cydraddoldeb, polisïau lleol). | |

**Paratoi cynllun datblygu a rhaglen hyfforddi**

| Maes i'w ddatblygu | Sut | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin, 2015** |
| **PWNC** | **Rhaglen waith ddrafft** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno rhaglen waith ddrafft ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor er mwyn blaen-raglennu gwaith y flwyddyn.** |
| **AWDUR** | **Arwel Ellis Jones**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol**<br>**Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae rhaglennu gwaith ar gyfer unrhyw faes yn cael ei ystyried fel ymarfer da. Mae'n golygu y gellir cynllunio gwaith yn fwy effeithiol a sicrhau y rhoddir ystyriaeth amserol a phriodol i faterion sydd o bwys i aelodau wrth sicrhau cefnogaeth briodol iddynt lwyddo i gyflawni yn llwyddiannus yn eu rolau. Mae hefyd yn golygu fod pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd am gael ei drafod a phryd.

2. Fodd bynnag, mewn byd sy'n prysur newid, mae'n hanfodol fod unrhyw flaen-raglen yn un byw – hynny yw, fod y blaen-raglen yn gallu cael ei addasu a'i newid ar unrhyw adeg petae blaenoriaethau newydd, nad ydym yn ymwybodol ohono yn gyfredol, yn codi ac angen trafodaeth neu ystyriaeth gan y Pwyllgor ar adeg penodol.

3. Cyflwynir isod ddrafft o'r materion i'w cynnwys ar y blaen-raglen waith, ynghyd ag argymhelliad o'r amserlen.

**SYLWADAU**

4. Gwahoddir barn y pwyllgor ar y bwriadau hyn

| Rhif | Eitem | Beth mae'r Pwyllgor i'w wneud? |
|---|---|---|
| 9fed Mehefin 2015 | | |
| 1. | Adroddiadau blynyddol gan Aelodau – cyflwyno y drefn ar gyfer adroddiadau 2014/15 | Gofyn barn y Pwyllgor ar y trefniadau. |
| 2. | Presenoldeb a chyflogau Aelodau – cyflwyno y trefniadau a'r gofynion ynghylch cyflogau. Ymgynghori ar y posibilrwydd o gyhoeddi presenoldeb aelodau. | Codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau ac ymgynghori ar gyhoeddi presenoldeb aelodau. |
| 3. | Cyfweliadau Datblygiad Personol – cyflwyno trefniadau eleni. | Gofyn barn y Pwyllgor ar y trefniadau. |
| 4. | Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – cyflwyno diweddariad o'r gefnogaeth sydd wedi ei gynnig i'r Cynghorau. | Derbyn gwybodaeth |
| 5. | Rhaglen waith – cyflwyno drafft o'r rhaglen waith. | Trafod y rhaglen waith a'r amserlen ddrafft er mwyn ei gytuno. |
| 29ain o Fedi 2015 | | |
| 6. | Adroddiadau blynyddol gan Aelodau – adrodd nol ar gyflawniad adroddiadau 2014/15 | Derbyn gwybodaeth |
| 7. | Presenoldeb a chyflogau Aelodau – gwybodaeth am gyflogau a phresenoldeb aelodau ar gyfer 2014/15 cyn iddo fynd i Newyddion Gwynedd | Derbyn gwybodaeth |
| 8. | Adroddiad diweddaru gan yr Is-grwp amrywiaeth. Cyflwyno diweddariad o waith y grwp a'r rhaglen waith a luniwyd. | Trafodaeth ar y datblygiadau gan yr is-grwp a barn ar y cyfeiriad gan y Pwyllgor. |
| 9. | Siarter Aelodau. Adrodd diweddariad ar y siarter aelodau – cyflwyno os oes darnau penodol o waith i'w wneud. | Trafod y ffordd ymlaen os oes angen gwaith pellach i ennill y Siarter. |
| 10. | Materion TG – adrodd nol ar peilot 'pages' a pheilot hyfforddiant pellach i-pad | Ceisio barn y Pwyllgor a phenderfynu ar y ffordd ymlaen hefo TG |
| 11. | Modern Gov – adrodd ar y datblygiad a rhaglen waith | Ceisio barn y Pwyllgor a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. |
| 8fed Rhagfyr 2015 | | |
| 12. | Gwe-ddarlledu. Adrodd ar y flwyddyn a fu a thrafod y ffordd ymlaen. | Ystyried y ffordd ymlaen ynghylch gwe-ddarlledu a'r gost ynghlwm. |
| 13. | Mynychu o bell. Derbyn diweddariad ar y gofynion ac unrhyw ddatblygiadau yng Ngwynedd. | Trafod gyda'r Pwyllgor o ran eu dymuniadau ar y ffordd ymlaen yng Ngwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Cyfweliadau Datblygiad Personol – adrodd nol ar gyfweliadau Medi i Rhagfyr a'r meysydd hyfforddiant adnabuwyd | Ystyried y rhaglen waith hyfforddiant, a sut i hyrwyddo mwy o bresenoldeb mewn hyfforddiant a chyfweliadau datblygiad personol |
| 15. | Modern Gov – diweddariad ar eitem 11 | Ystyried y ffordd ymlaen. |
| 16. | Cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau | Adrodd am faes gwaith y pwyllgor. |
| 29ain Fawrth 2015 | | |
| 17. | Trefniadau etholiadau. Cyflwyno syniadau cychwynnol ynghylch y gwaith sydd angen digwydd yng Ngwynedd wrth baratoi am etholiadau 2017. | Ceisio barn y Pwyllgor am y gwaith rhag-baratoadol sydd i'w wneud, ac efallai ffurfio is-grwpiau i weithredu. |
| 18. | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor llawn – cyflwyno drafft o adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor fydd i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn. | Asesu llwyddiannau a gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo gan y Pwyllgor. |

Materion eraill fydd angen sylw ac angen adnabod dyddiad penodol ar eu cyfer:

- Technoleg Gwybodaeth – tebygol o fod yn eitem barhaus ar yr agenda
- Adroddiad y Comisiwn Ffiniau – y diweddaraf ar waith y comisiwn, ei oblygiadau i Wynedd ac i'r aelodau, a'r amserlen gweithredu
- Adroddiad 'canlyniad' y Papur Gwyn ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol
- Adnabod gofynion ar gyfer y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau